# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 18 Ionawr 2017

Amser: 09.30 - 12.21

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3828

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AC (Cadeirydd)<br>Angela Burns AC (yn lle Mohammad Asghar (Oscar) AC)<br>Michelle Brown AC<br>Hefin David AC<br>John Griffiths AC<br>Llyr Gruffydd AC<br>Darren Millar AC<br>Julie Morgan AC |
| Tystion: | Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon<br>Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Dr Sarah Watkins, Llywodraeth Cymru<br>Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol, Chief Medial Officer<br>Albert Heaney, Llywodraeth Cymru<br>Denise Inger, SNAP Cymru |

| | |
|---|---|
| | Debbie Thomas, Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar<br>Tim Ruscoe, Barnardo's Cymru<br>Zoe Richards, Learning Disability Wales<br>Angie Contestabile, SENSE |
| Staff y Pwyllgor: | Jon Antoniazzi (Clerc)<br>Gareth Rogers (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Sarah Hatherley (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod PDF (999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau. Cafwyd ymddiheuriadau gan Mohammad Asghar; dirprwyodd Angela Burns ar ei ran.

## 2 Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol - sesiwn graffu gyffredinol

Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog.

Cytunwyd y byddai nodyn yn cael ei ddarparu ar y materion a ganlyn:

Y wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ar gyfer cyhoeddi data ynghylch targedau amser yr asesiad CAMHS;

Y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o'r 'Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru' yn dilyn y cyfarfod â'r Prif Swyddog Nyrsio;

Cyfraddau bwydo ar y fron yng Nghymru ar ôl chwe mis;

Nodyn ar Wasanaethau Newyddenedigol ledled Cymru, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ysbytai sydd ar y gofrestr 'mewn perygl'.

## 3 Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 2

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan TSANA.

## 4 Papurau i'w nodi

Nodwyd y papurau.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet am ragor o wybodaeth am y cynllun 'Fy Ngherdyn Teithio'.

### 4.1 Llythyr gan UCM Cymru at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

### 4.2 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - Rhagor o wybodaeth am 'Llwybrau Llwyddiant'

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Ymchwiliad i Ddarpariaeth o ran Eiriolaeth Statudol - Trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft. Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft, yn amodol ar fân newidiadau.